PRIS 4c.

Cyfres Llanbedr | Gorffennaf, 1933 | Cyf. 33. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Rhifyn Coffa

Tomos Glyn Cothi
1766—1833.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r " Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner at

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,'

LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. GORFFENNAF, 1933. CYF. XXXIII. RHIF 7.

Tomos Glyn Cothi.

Gan DYFNALLT.

YGWIR poenus yw mai ychydig a ŵyr Cymru am Domos Glyn Cothi mwy nag aml un arall oedd fel yntau yn ddiwygiwr a rebel wrth natur—dynion fel Iolo Morganwg, Jac Glan y Gors, Tomos Roberts Llwynrhudol ac eraill. Yr oedd tri rheswm am yr anwybu fu arno :

(i) Crefydd Galfinaidd oedd yr unig ffurf ar grefydd Cymru yn yr oes honno. Dau biler mawr honno oedd penarglwyddiaeth Duw ac achubiaeth yr enaid unigol. Byd y genedl oedd pregeth, cwrdd gweddi, seiad a dadl ddiwinyddol. Nid oedd iawnder a breiniau dyn yn cyfrif dim.

(ii) Undodiaid bron yn ddieithriad oedd y diwygwyr gwleidyddol, a phob un ohonynt mewn cydymdeimlad dwfn a'r Chwyldro Mawr yn Ffrainc ar y cyntaf, beth bynnag. Dirmyg oedd rha y Sosiniaid neu'r Dwyfundodiaid, fel eu gelwid.

(iii) Yr oedd Cymru'n rhwym wrth Loegr draed a dwylo. Gadawer i ni nodi enghraifft neu ddwy. Un oedd cyfarfod mawr Castell Newydd Emlyn, Chwefror 13, 1793—cyfarfod o ymneilltuwyr yn tyngu llw o deyrngarwch i'r brenin. Un arall oedd Cyfarfod Heol Awst, Caerfyrddin, Awst 25, 1803. Dywed yr adroddiad fod " oddiamgylch dwy fil o bobl yn bresennol ", yn cynnwys arweinwyr " y Presbyteriaid, Independiaid a'r Bedyddwyr, yn Neheubarth Cymru " i dystiolaethu eu ffyddlondeb i'r brenin ac i'r llywodraeth, a chymell pobl i ymrestru'n wirfoddol. Ni wyddom i sicrwydd a oedd Tomos Glyn Cothi wedi gadael carchar Caerfyrddin pan gynhelid y cyfarfod hwn.

Y teip cyffredin o feddwl yn y wlad oedd Cyfarfod Caerfyrddin—meddwl hollol slafaidd i lywodraeth Lloegr a " duw pethau fel yr oeddynt ". Y meddwl arall ar waith mewn cylch cymharol fychan oedd y meddwl beirniadol, diwygiadol a chwyldroadol oedd yn dinoethi anghyfiawnder cymdeithasol a gormes wleidyddol, a gynrychiolid gan Domos Glyn Cothi.

Calendr a Chronicl.

Dyma fraslun byr o brif ffeithiau'i fywyd. Ganed ef mewn tyddyn o'r enw Capel Sant Silin, ger Brechfa, Sir Gaerfyrddin, Mehefin 20, 1764. Ac eithrio tymor byr fel gwas fferm, dilynodd hen grefft y teulu—gwehydd. Prin iawn fu ei fanteision addysg. Ond yr oedd ei newyn er yn ieuanc iawn yn anniwall am wybodaeth. Y mae ar gael lythyr oddiwrth y Parch. Theophilus Lindsay yn danfon rhoddion o lyfrau iddo pan oedd yn byw ym Mhenypistyll, Brechfa, rhwng 1792 a 1796. Fel gwehydd, ymwelai â ffeiriau Morgannwg i werthu gwlanen a brethyn. Ar y teithiau hynny, daeth i gyfathrach a beirdd Gorsedd Morgannwg—Iolo a'r sêr llai, ffrindiau calon y Chwyldro yn Ffrainc. Yr oedd yng Ngorsedd Mynydd y Garth, Alban Hefin, 1797.

Enghraifft arall o'i annibyniaeth meddwl oedd ei waith yn cofleidio Undodiaeth yn ieuanc, a hynny mewn ardal enwog am ei Chalfiniaeth. Trwy garedigrwydd ei dad, cafodd le a thrwydded i bregethu ar aelwyd ei hen gartref. Daliodd ati yn gyson fan honno i bregethu a thaflu'r wennol trwy'r wythnos. Ar ben deng mlynedd, codwyd capel Cwm Cothi. Tybir iddo ddechrau pregethu tua 1786. Cyhoeddodd ddwy bregeth fel math o ddatganiad o'i ffydd yn 1792 a 1794. Yr oedd ei feddwl ymchwilgar, gonest, yn ymwrthod yn ddiamodol â phob math o ffuantrwydd. Gwrthryfelai yn bendant yn erbyn athrawiaeth y pechod gwreiddiol, a bod dynoliaeth yn golledig yn herwydd cwymp Eden. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes i gyhoeddi ei ffydd mewn llyfr a phregeth. Cymaint oedd ei deyrngarwch i Dr. Priestley fel y llysenwid ef ar lafar gwlad yn " Priestley bach ". Symudodd yn 1811 i Aberdâr, i gymryd gofal yr Hên Dŷ Cwrdd, ac yno, wedi oes gyfan o ddilyn y golau a'r gwirionedd y bu farw Ionawr 29, 1833.

Gan mai sôn amdano fel rebel a diwygiwr yw diben y llith hwn, cyfyngwn ein hunain i dri o'i weithiau.

I.

The Miscellaneous Repository, neu y Drysorfa Gymmwysedig. Cyhoeddiad chwarterol oedd hwn, a'i ddiben yn ddiau i gadw crwsâd " Cylch-grawn Cymraeg " Morgan John Rhys yn ei flaen. Y gwahaniaeth mawr rhyngddo â hwnnw oedd y lle a roddid i

syniadau ac athrawiaethau Dr. Priestley. Tri rhifyn a gyhoeddwyd—Rhifyn Haf 1795, Rhifyn Hydref 1795 a Rhifyn Gwanwyn 1796. Yn y rhifynnau hyn y gwelir y rebel a'r diwygiwr yn ei afiaith.

Gadawer i ni ddifynnu o " Gweddi i'w harfer gan y bobl a fyddo yn byw dan lywodraeth greulon, drahaus, ar ddydd ympryd. Llef gwaed sydd i fyny atat ; cynddaredd uffern sydd ar led yn y byd ; gwallgof cythreuliaid sydd yn aflonyddu ein llysoedd ; y tlawd sydd yn llefain yn yr heolydd am fara, a rhai cyfiawn y ddaear mewn caethiwed. . . O dysg ddoethineb i'th bobl, bydded iddynt edrych gyda dychryn ac atgasrwydd ar ddifrod ac anrhaith trawslywodraethwyr : a'u gyrru hwynt bendramwnwgl oddiar orseddfeinciau eu hawdurdod. . . . O Dduw'r trugaredd a'r tosturi . . . atal ffyrnigrwydd y rhai sydd yn ymbesgi ar waed, gan ymhyfrydu i gamddefnyddio eu hawdurdod, a thraflyncu cnawd y tlawd a myned yn foethus ar lafur dy bobl."

Yn dilyn y mae " Hymn i'w chanu ar ddydd ympryd gan ' Gyfeillion Dynolryw '."

" 'Sglyfaethwyr sy'n ymdroi mewn gwa'd,
Gan speilio heddwch pob rhyw wlad ;
Mor helaeth eu 'sgelerder nawr,
Mae'n llanw'r byd a dychryn mawr."

" Yn bendramwnwgl bwr i lawr
Holl dreiswyr byd mewn munud awr."

" Yna daw heddwch i bob gradd
Yn lle gorthrymder llym a lladd,
A'r holl fyd fel cyd-blant yn byw,
Yn deulu mawr i ti, ein Duw.

Yna caiff caethion fynd yn rhydd
O'r bron, rôl bod yn hir yn brudd,
A mwynhau'r breintiau hyfryd, hael,
Apwyntiodd natur i ddyn gael.

Daw drachefn, " Gweddi arall i'w harfer gan gyfeillion Dynolryw ar ddiwedd addoliad,—

" Gostwng dy glust at lef cystuddiol yr African tlawd. . . . Cadarnha a chysura ferthyron gogoneddus gwirionedd, dynoliaeth a rhyddid pa un bynnag ai mewn rhwymau neu mewn alltudiaeth . . . . rhwym bob cnawd ynghyd â rhwymyn cariad efengylaidd a brawdgarwch, a daioni effeithiola bawb calonnau â'r ysbryd cyd-ymdeimlad hwnnw o *Undeb, Heddwch a Chydgordiad.*"

Byddai'n ddiddorol cymharu gweddiau Tomos Glyn Cothi â gweddiau Gruffydd Jones, Llanddowror. Gweddiau y diwygiwr o Landdowror oedd ar aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn ddieithriad. Nid oes air o sôn ynddynt am iawnder dyn : am ormes y trahaus : am anghyfiawnder cymdeithasol : am dlodi a melltith rhyfel. Clywir gwaedd y rebel yn erbyn y drefn anghyfiawn ar fyd : y dibrisio ar werth hanfodol dyn, a'r angen am gariad fel egwyddor fawr bywyd yng ngweddiau Tomos Glyn Cothi. Ni all oddef y rhagrith oedd yn ffynnu yn ympryd swyddogol yr eglwysi pan oedd y byd yn mynd yn dyn.

Yr oedd tân Chwyldro Mawr Ffrainc yn llosgi yn ei waed. Ffrainc oedd ysbrydiaeth ei waith hyd 1800 yn ddibetrus, Y mae delw'r Chwyldro ar " Y Drysorfa Gymmysgedig ".

II.

Y mae ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol gyfrol o'i waith mewn llawysgrif. Ei theitl yw " Y Gell Gymysg ". Ysgrifennwyd hi rhwng 1797 a 1800. Ceir ynddi ddyfyniadau o bapurau a chyhoeddiadau Saesneg yn dangos ei ddiddordeb dwfn ym mhwnc rhyddid gwladol a chymdeithasol. Tebyg fod ei gyfathrach â gorsedd Morganwg yn agos iawn yn y tymor. Dyfalwn mai cywyddau ar gyfer eu darllen yn yr Orsedd yw'r cywyddau yn y gyfrol. Ac un o'r pethau mwyaf deifiol yn y gyfrol yw cywydd " Trioedd Offeiriaid " gan Iolo Morganwg yn ei lawysgrif ef ei hun. Cyfieitha lythyr Bonaparte wedi syrffedu ar ryfel. Caiff Rousseau sylw. Cawn yma araith Syr Francis Burdett yn erbyn gwastraff rhyfel. Y mae'n werth dyfynnu un ymadrodd,—" mai arian yw gewynion rhyfel ". Mor ofnadwy o wir !

Ymesyd yn ddidrugaredd ar Pitt. Dyfynna o ddatganiad Cymanfa y Ffrancod Mai 7, 1794. Beirniedir esgobion ac offeiriaid oblegid eu hanghefnogaeth i Heddwch. Yn ei gywydd i Heddwch, cyfeiria at wleidyddion y dydd,—

Sheridan fwynlan o'i fodd,
A hefyd *Fox* a safodd.
A seinient yn y Senedd
Rhag adfyd du hyfryd hedd.

Rhyddid a *Heddwch* yw'r ddau gywair mawr y tery'u tannau'n gyson.

Eithr yn " Y Gredo Wladol " y ceir yr olwg orau ar feddwl beiddgar, iach, didderbyn-wyneb Tomos Glyn Cothi yn llawn ysbryd chwyldro, beirniadaeth a sen, yn datgan ei farn yn groew yn y ffordd o ddychan finiog. Yr oedd dychan fel cyllell lem yn ei law, yn torri i'r byw ac yn tynnu'r gwaed drwg o fywyd cymdeithasol a gwleidyddol yr oes. Gan nad yw'r " Gredo Wleidyddol " erioed wedi gweled golau dydd, y mae'n werth ei rhoi yma'n llawn,—

"Y Gredo Wladol

i'w darllain yn wastad ar ôl Credo St. Athanasius, ar yr uchelwyliau canlynol, sef Gwyliau St. Pitt, St. Dundas, St. Windham, St. Wilberforce, St. Horsley, St. Grenvile, St. Burke, St. George, etc., etc.

Pwy bynnag a fynno fod yn gadwedig, rhaid iddo gynnal y ffydd iachus, yr hon ffydd oni cheidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diamau y cyfrgollir ef *dros amser*.

A'r ffydd anffaeledig yw hon, Bod i ni ufuddhau i *Un* awdurdod yn drindod, a'r drindod yn undod. Nid cymysgu ohonom y personau na gwahaniaethu eu sylwedd.

Un person sydd i'r Brenin, ac un i'r Senedd Arglwyddi, ac un i'r Senedd Gyffredin. Eithr mawredd y Brenin, Arglwyddi a'r Tŷ Cyffredin sydd unrhyw, gogoniant gogyfuwch mawrhydi gohyhydbarhad. Unrhyw yw'r Brenin, unrhyw yw'r Arglwyddi, unrhyw yw'r Marchogion. Galluog yw'r Brenin, galluog yw'r Arglwyddi, galluog yw'r Marchogion, ac eto nid ydynt dri galluogion ond un galluog.

Felly, y Brenin sydd lywodraethwr, Tŷ'r Arglwyddi sydd lywodraethwr, tŷ'r Marchogion sydd lywodraethwr, eto nid ydynt dri llywodraethwr, ond a'u tarddiad i lywodraethu yr un modd. Canys fel y cymhellir ni trwy y Gredo iachus i gyfaddef bod pob un o'r tri yn llywodraethu ohono'i hun, felly y gwaherddir ni trwy yr anffaeledigaethol Gredo i feddwl eu bod hwy'n anghytuno ynghylch y drefn o lywodraethu.

Y Brenin ni wnaethpwyd gan neb na'i greu, eithr ei goroni. Yr Arglwyddi nis coronwyd na'u gwneuthur, ond eu creu gan y Brenin yn unig. Y Marchogion nis coronwyd na'u creu, ond eu dewis mewn lliw gan berchenogion tiroedd, ond mewn gwirionedd gan y Brenin a'r Arglwyddi, a'u hanrhydeddu yn ôl llaw megis St. Pitt a St. Burke.

Wrth hyny un Brenin y sydd ac nid tri Brenin: un Senedd Arglwyddi ac nid tair Senedd Arglwyddi: un Senedd Gyffredin ac nid tair Senedd Gyffredin. Ac nid oes un o'r rhain yn groes i'w gilydd: nid oes un yn well neu'n waeth na'u gilydd. Ac fel y dywedwyd uchod, yr un awdurdod yn dri, a'r tri yn un sydd i ufuddhau iddynt.

Pwy bynnag a fynno fod yn gadwedig, synied felly am y drindod wladol.

Y mae hefyd yn angenrheidiol, er mwyn amserol iechydwriaeth, gredu o ddyn yn ffyddlon fod y Brenin o sylwedd ei dad yn un o'i wlad ei hun, ac o sylwedd ei fam o wlad arall. Hanner Sais oblegid ei dad, estron oblegid ei fam, ond o waed Brenhinol digymysg a dihalog.

Am yr Arglwyddi, rhaid credu'n ffyddlon eu bod oll yn cael eu creu gan y Brenin i fod yn fwy cymwys i gyflawni ei ddibenion, a'u bod o ddau rywogaeth—Arglwyddi Tymhorol ac Arglwyddi Ysbrydol. A'u bod trwy eu heffaith yn ymdrechu gosod eu ceraint a'u cyfeillion yn y Senedd Gyffredin, i'r diben o ddwyn yn y blaen yn fwy llwyddiannus yr un gwaith awdurdodol.

Am y Marchogion, rhaid yw credu yn ffyddlon eu bod i aros ar ôl y lliw o'u dewis, *saith* mlynedd, cyn yr ail rith o'u dewisiad, a'u bod y rhan fwyaf ohonynt mewn swyddi segur ac enillfawr dan y Brenin, megis y mae llawer o'u Arglwyddi.

Hon yw'r ffydd enillfawr a cholledus, yr hon pwy bynnag nis creto yn ffyddlon ni all efe fod yn gymeradwy gan fintai yr offeiriaid, plant yr Arglwyddi Ysbrydol.

Clod i'r Brenin, Arglwyddi, a Marchogion y Tri Pherson yn un Hanfod.

Megis yr oedd, y mae, ac y bydd, dros *ychydig* amser. Amen."

III.

Y llyfr arall sy'n cynnwys ei olygiadau chwyldroadol yw ei *Gyfansoddiad o Hymnau*, 1811. Er iddo, fel y dywed yn ei ragair ymgeisio " yn ofalus wrth gyfansoddi yr Hymnau canlynol, ar fod y syniadau yn efengylaidd ", clywir llais y rebel a'r diwygiwr yn hyglyw iawn,

" Oddiwrth orthrymder blin a chaeth
Yr Iesu ddaeth i'n gwared."

Gwrandawer ar ei emyn, " Galarnad ar Ddydd ympryd yn eco cyflwr y byd,"—

" Cryn Ewrop oll yn awr dan bwys
Dy ddyrnod ddig a dery'n ddwys.

Afonydd hon sy'n ffrydiau gwaed,
Y meirw sethrir hwy dan draed.

Darostwng dreiswyr uchel fryd
Na chaffont aflonyddu'r byd.

Dinoetha'th fraich sydd fawr ei grym
I'n cadw rhag gorthrymwyr llym,
Y fraich waredodd lawer gwaith
Y caethion o gyfyngder maith.

Y mae pwyslais yr emynau ar Dduw, Gwirionedd a Heddwch a Breiniau Dyn,—

"Trwy wir adnabod breiniau dyn
Diffodded gwŷn creulonder,
Ar heddwch rhodded pawb eu bryd
Er dwyn i'r byd esmwythder."

"Dwyn heddwch dros y ddaear faith
A fyddo'n waith derbyniol."

Breiniau dyn oedd brenin—ymadrodd Tom Paine, Iolo Morganwg a'r diwygwyr i gyd. Dysgu gwersi moesol yn fwy na chanu profiadau crefyddol oedd teithi emynau Tomos Glyn Cothi. Ni theimlir eneiniad Pantycelyn arnynt. Nid oedd yn perthyn i emynwyr Cylch Dyffryn Tywi—cylch emyn y gwres a'r eneiniad a'r gorfoledd ysbryd.

IV. Dial ar y Rebel.

Costiodd argyhoeddiadau a lleferydd Tomos Glyn Cothi yn ddrud iddo. Tynnodd wg y llywodraeth oedd yn elyn anghymodlawn i bob diwygiwr gwleidyddol. Yr oedd llygaid blysig ysbiwyr ar bob rebel. Hyd yn oed o ardal bell Brechfa, yr oedd yr hanes am Domos Glyn Cothi wedi cerdded i glyw'r awdurdodau, a dodwyd y cwn ar ei sodlau. Hen sefydliad yn y gymdogaeth i roi help llaw i'r gwan ei fyd oedd "Cwrw Bach". Aeth y rebel i un ohonynt yn nhŷ gweddw dlawd, cododd yr hwyl, dechreuwyd canu, a pherswadiwyd y gweinidog beiddgar i roi cân. Cyhuddwyd ef o ganu cân Saesneg yn llawn brad yn erbyn y wladwriaeth, a chondemniwyd ef, a'i fwrw yng ngharchar Caerfyrddin am ddwy flynedd. Dodwyd ef ddwywaith yn y pilwri wrth eglwys Sant Pedr i'w wneuthur yn wawd i'r cyhoedd. Dengys y llythyr a ganlyn—llythyr nas cyhoeddwyd o'r blaen ei fod yng ngharchar Caerfyrddin Ionawr 19, 1803. Ar yr amlen y mae'r cyfeiriad :—

"Rev. Mr. Thos. Evans,
Dissenting Minister,
at the County Gaol,
Carmarthen.

Dear Sir,

My cousin of Rhydybennau sent me your petition to be forwarded to the Trustees of Lady Hewly's Fund. I heartily wish it success. I mentioned your case to a few friends who contributed £5 which I with great pleasure enclose for your acceptance. When you receive this take the trouble to write me a few lines to convey me that

Information—and besides, let me know how long you are to remain in *durance vile*. Are you likely to be greatly injured upon the whole in your worldly circumstances by the Prosecution? Do the inhabitants of Carmarthen show you much kindness? Are any of the Miss Rhydderoe married? Should you have an opportunity, please to give my respects to Mrs. Peters, Mr. and Mrs. Williams, formerly mercers. I think I heard that the Miss Richards, milliners, are dead. On hopes of hearing from you soon, I remain your well wisher,

Makeney, near Derby, JOHN DAVIES
Jany. 19, 1803."

Gwelir wrth y llythyr nad oedd sicrwydd am adeg ei ryddhad, a bod ei gyfeillion yn Lloegr a Chymru yn gymwynasgar iawn tuag ato. Condemniwyd ef yn ddios ar gam yn unig i borthi nwyd ddialgar ciwaid o swyddwyr cyflog a gelynion rhyddid. Ynfyd i'r eithaf yw meddwl am Tomos Glyn Cothi yn canu cân Saesneg yn ardal Brechfa. Y tebygolrwydd yw iddo ganu cân o'i waith ei hun—cân a gyhoeddwyd yng "Nghylchgrawn" Treffynnon. Ei theitl yw "Cân Rhyddid". Gellir ei chanu ar y *Marseillaise*, a hynny a wnaeth y rebel yn ddiamau. A chan fod y *Marseillaise* a Chwyldro Mawr Ffrainc fel arswyd barn ar groen gwaedgwn y llywodraeth, yr oedd hynny'n ddigon o esgus dros dyngu celwydd er mwyn rhoi anfri ar y diwygiwr tanllyd.

Lleferydd rebel yn bloeddio "Drylliwn eu rhwymau, a thaflwn eu rheffynnau oddiwrthym" yw cywair y gân,—

Dwy flynedd o garchar am ganu "Cân Rhyddid" mewn "Cwrw Bach"—dyna dâl y rebel a'r diwygiwr: ei osod yn y pilwri yn ymyl eglwys y plwyf i fod yn destun crechwen a gwawd ar ddydd marchnad, dyna ddull y gormeswr i geisio lladd ysbryd rhyddid yn y tir.

Daliwyd Tomos Glyn Cothi yn y gwynt nerthol oedd yn chwythu o Ffrainc ar draws Ewrop, ar yr awr honno, awr y ddeufor cyfarfod, gwrthdarawiad y ddau allu—llifeiriant chwyrn chwyldro a rhyw dinc delynegol ysgubol ynddo ar un llaw, a nerthoedd difywyd ffiwdaliaeth a thraddodiad marw ar y llaw arall. Disgynnodd bloedd glochaidd y cyffro newydd i'w galon: llosgodd y wawr newydd ar ei ael,

> "Bliss was it in that dawn to be alive,
> But to be young was very heaven."

Neidiodd fel marchog ifanc ar ei farch, spardynnodd ef i garlam, golchodd ei waywffon yng ngwawl y golau newydd a phlannodd hi hyd y carn ym mherfedd dreigiau a bwystfilod cymdeithasol rheibus yr oes. Parotodd y ffordd i Ryddid a Heddwch ddyfod yn draddodiad ac yn argyhoeddiad i Gymru ddiweddar.

Tomos Glyn Cothi.

APOSTOL RHYDDID.

PENNOD ardderchog yw hanes yr ymdrech a wnaethpwyd yn chwarter olaf y ddeunawfed ganrif o blaid rhyddid mewn gwlad ac eglwys gan fintai fechan o ddiwygwyr, (yn eu plith, Thomas Evans, Glyn Cothi), ac ni ellir eu deall hwy'n iawn heb wybod rhywbeth am symudiadau'r oes honno a hefyd am yr hyn a aethai o'u blaen. Un dylanwad â welir yn eglur ar eu gweithiau yw eiddo'r traddodiad Piwritanaidd, ac yn wir, o ran ysbryd a chredo, etifeddion yr hen Biwritaniaid ydynt, i raddau helaeth. Hawl dyn i feddwl trosto'i hun oedd sylfaen credo'r Piwritan ; am hynny yr oedd yn elyn i frenin unbenaethol ac i eglwys sefydledig fel ei gilydd. Iddo ef, nid oedd erlid ond llofruddiaeth ysbrydol ; dylai pob sect fod yn rhydd i addoli fel y mynnai. Dylid ymwrthod ag awdurdod y gorffennol, llywodraeth y byw gan y meirw, a disodli'r hen " symudiadau hanes " gan rai democrataidd. A dyma ddadl fawr Tom Paine yn nes ymlaen, a cheir yr un syniadau'n gymwys gan y diwygwyr Cymreig, megis Morgan John Rhys, Iolo Morgannwg, Jac Glan y Gors, Thomas Roberts, Llwynrhudol, Dr. William Richards a Thomas Glyn Cothi. Ar y llaw arall, y mae eu gwrthwynebwyr—yr offeiriaid a'r Diwygwyr Methodistaidd—yn dadlau'n union yn ôl dull yr hen Freniniaethwyr, gan ddal bod y brenin a'i swyddogion wedi eu hordeinio gan Dduw, a'i bod hi'n ddyletswydd gysegredig ar bawb i ufuddhau iddynt. Ffaith arwyddocaol, hefyd, yw mai yn yr un parthau o Gymru ag y gafaelodd Piwritaniaeth y cododd y rhan fwyaf o ddiwygwyr gwleidyddol y cyfnod. Yn ei lyfr diddorol, " Cymru a'i Phobl ", dengys Mr. Iorwerth Peate mai yn ardaloedd diwydiannol y Gororau a chanolfannau'r fasnach wlân y cydiodd Piwritaniaeth, hynny yw, ymhlith pobl effro ac annibynnol ardaloedd Gwrecsam, Llanfyllin, y Drefnewydd, Llanidloes, Aberhonddu, Abergefenni a Chaerfyrddin. O chwilio, fe welir mai yn y parthau hyn (ac yng nghymdeithasau Llundain) y gweithiai'r rhan fwyaf o ddiwygwyr gwleidyddol y 18 ganrif a'r 19 ganrif. Er enghraifft, ar gwr gweithfeydd gwlân Maldwyn y cyfyd William Jones (Llangadfan), John Owen (Machynlleth), Gwallter Mechain, ac yn nes ymlaen, Samuel Roberts (Llanbryn Mair) ; yn Fflint a Dinbych—Jac Glan y Gors, Edward Charles, David Davies (Treffynnon), Robert Waithman a John Wilkinson ; o gwmpas Caerfyrddin y cyfyd Dafydd Llwyd (Brynllefrith) a'i fab Charles Lloyd, Ll. D., Dafydd Dafis (Castell Hywel) a Thomos Glyn Cothi ; yr ochr arall—William Richards, Ll.D., William Williams, Y.H., Aberteifi, ac yn nes

ymlaen, Joseph Harris (Gomer); yn nhrefi Morgannwg—Richard Price, Iolo Morgannwg, Edward Ifan (Aber Dâr), Morgan John Rhys a David Williams; yn y Drefnewydd y cyfyd Robert Owen; ac yn yr ardaloedd diwydiannol hyn eto—yn y Drefnewydd, a Llanidloes, yng Nghaerfyrddin, Aber Dâr, Hirwaun a Merthyr ac yn nhrefydd Sir Fynwy—y ceir y Siartiaid. Nid ydys, bid sicr, am awgrymu mai amgylchedd a thraddodiad yw'r unig elfennau lluniol i'w hystyried. Yn wir, fe wyddys i amryw o'r gwŷr a ennwyd ddyfod o dan ddylanwad Tom Paine, Dr. J. Priestley a Gilbert Wakefield, heblaw ysgrifenwyr Ffrengig, megis Voltaire a Rousseau.

Dylanwad arall ar y gwŷr hyn a fu'r Rhyfel â'r Amerig, ac fe â'r Athro R. T. Jenkins cyn belled â mynnu mai America oedd athro pob un ohonynt at ryddid:—"Am fod Rhyfel Annibyniaeth America, mewn gwahanol ffyrdd, wedi eu deffro i feddwl am ddiwygiadau gwladol ac i'w dymuno yr oedd William Richards a Morgan John Rhys ac Undodiaid y De-orllewin, ac uwchlaw pawb, Richard Price (fel Priestley, o ran hynny), yn barod i roi croeso i'r Chwyldro Ffrengig; *effaith* nid *achos* cynnydd Rhyddfrydiaeth oedd y cydymdeimlad ym Mhrydain â Chwyldro 1789".

Ond er na ellir honni i'r Chwyldro gychwyn mudiad newydd o blaid Diwygiad yn y wlad hon, eto fe roddodd fywyd newydd mewn hen fudiadau a oedd eisoes yn gwanhau. O wneud analysis o'r llyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd rhwng 1760 ac 1800, gwelir na chyhoeddwyd yr un llyfr Cymraeg o natur gwleidyddol rhwng 1760 a 1769; rhwng 1770 a 1779 cyhoeddwyd 14, a'r un nifer rhwng 1780 a 1789, ond rhwng 1790 a 1799 fe gyhoeddwyd cymaint â 80. Hefyd, y mae'r cynnydd mewn llyfrau gwleidyddol yn llawer uwch nag mewn meysydd eraill. Prawf hyn fod y diddordeb mewn gwleidyddiaeth wedi cynyddu'n sydyn, ac i ddylanwad y Chwyldro Ffrengig yr ydys i briodoli hyn.

Yn ôl "Datganiad Breiniau Dyn" yr oedd gan bawb yn Ffrainc yr un hawl i swyddi'r Wladwriaeth, ac nid oedd gosb ar neb oherwydd ei ddaliadau crefyddol. Cafodd y fuddugoliaeth hon ddylanwad ar wleidyddiaeth)ein gwlad ni: rhoddodd galon newydd yn y diwygwyr i fentro i'r maes unwaith eto yn erbyn culni ac anoddefgarwch. Nid oes yma le i olrhain y mudiad oherwydd golygai hynny ymdrin â lliaws o gylchgronau, pamffledau, pregethau a Siarsau, baledi ac almanaciau, cofiannau, hymnau ac anterliwtiau, llythyrau a chofnodion y cymanfaoedd, ystadegau carcharau Prydain a Ffrainc, etc. Ond dylid nodi'r "Cylchgrawn Cymraeg" a sefydlwyd gan Forgan John Rhys am mai dyma'r ymgais gyntaf i ymdrin â phynciau gwleidyddol y dydd yn yr iaith Gymraeg. Ceir ar dudalennau'r "Cylchgrawn" epitomé o feddwl blaengar a symudiadau dyngarol y dydd Y mae yno ysgrifau, gan y golygydd

ac eraill, o blaid yr Ysgolion Sul a'r Ysgolion Beunyddiol, y Symudiadau dros y Genhadaeth, Heddwch Cyffredinol, a thros ddileu Caethwasiaeth, a'r Mudiad o blaid Diwygiad Gwleidyddol a Chrefyddol. Pob chwarter yr ymddangosai'r "Cylchgrawn Cynmraeg": daeth y rhifyn cyntaf o'r wasg fis Chwefror 1793, a chafwyd pum rhifyn. Yn Nhrefeca y printiwyd y ddwy ran gyntaf, yng Nghaerfyrddin Rifyn 4 a 5, ac am y trydydd rhifyn, printiwyd peth ohono yn Nhrefeca a'i orffen ym Machynlleth. Yr esboniad a gynigir, yn ddieithriad, dros symud o Drefeca i Fachynlleth yw bod ofn erlid ar yr argraffwyr oherwydd y syniadau gwyllt a geid yn y "Cylchgrawn", yn enwedig ar y Chwyldro yn Ffrainc. Ond yr oedd rhesymau eraill, ac fe ddywed Rhys ei hun mai dau beth oedd yn "atal y Cylchgrawn rhag cymryd ei le yn gyffredinol trwy Gymru", sef yr anhawster i'w ddosbarthu a'r rhagfarn yn erbyn yr erthyglau ar bynciau crefyddol. Yr oedd Rhys wedi ymosod ar yr athrawiaeth ac o'r herwydd wedi codi gwrychyn y gwŷr uniongred ymhob enwad.

Oherwydd diffyg cefnogaeth peidiodd y "Cylchgrawn Cynmraeg" ag ymddangos ar ôl Gwanwyn 1794, ac ni chafodd y Mudiad Diwygio yr un cylchgrawn i'w bropaganda yng Nghymru nes ymddangos o'r "Miscellaneous Repository, neu y Drysorfa Gymmysgedig", dan olygyddiaeth Tomos Glyn Cothi. Yr haf 1795 y daeth y rhifyn cyntaf allan, o wasg I. Ross, yn Heol Awst, Caerfyrddin. Ar yr wyneb-ddalen ceir :— "Pris chwe cheiniog; i ddyfod allan yn chwarterol", ond tri rhifyn yn unig a ymddangosodd. Ysgrifau diwinyddol (lawer ohonynt yn gyfieithiadau o weithiau Joseph Priestley a W. Frend) yw'r rhan fwyaf o gynnwys y rhifynnau, ond traethir ynddynt hefyd ar bynciau gwleidyddol y dydd. Nid oes yn y "Drysorfa Gymmysgedig" gymaint o amrywiaeth ag sydd yng "Nghylchgrawn Cynmraeg" Morgan John Rhys, ond fe geir ynddi hithau gefnogaeth i'r Symudiad Diwygio ac i ddelfrydau gwerinol y Chwyldro yn Ffrainc.

Yn rhifyn cyntaf, cyfieithir hanes erlyn arweinwyr y Cymdeithasau Diwygio yn Lloegr—"Mr. Thomas Hardy, Ysgrifennydd i'r Gymdeithas Gyngweddawl yn Llundain (London Corresponding Society) a Mr. Daniel Adams, ysgrifenydd i'r Gymdeithas at daenu gwybodaeth o'r Sefydliad Gwladol (Society for Constitutional Information)"—a "hanes daliad y Parchedig Jeremiah Joyce am ymddygiad bradwriaethol". Ysgrifenesid y pamffled gwreiddiol gan Joyce ei hun er mwyn i'r wlad wybod ei hanes, "yn gymaint nad oedd sicrwydd y byddai i ganlyniadau am uchel fradwriaeth derfynu gyda'r rhai a ddaliesid yn ddiweddar, a'i bod yn sefyll ar law rheithwyr o'n gwlad ein hunain benderfynu a ddylai rhyddid a bywydau preswylwyr Brydain Fawr gael eu hoffrymu ar allor awdurdod". Ceir ynddo, hefyd, gyfieithiad o annerch un o Gymdeithasau Rhyddid yr Amerig—"Y Gymdeithas Damanaidd"

—i'r Dr. Joseph Priestley, pan orfu ar hwnnw ffoi yno rhag " braich arw creulondeb, a rhag gwialen gallu digyfraith ". Canmolir Priestley fel " cyfaill dynolryw " ac fel " daliwr hawl cydwybod ac amddiffynwr cadarn rhydd-did gwladol a chrefyddol ", a chyferbynnir llywodraeth ddedwydd America â thraws lywodraeth Prydain.

Ond un o nodweddion arbenicaf y " Drysorfa Gymmysgedig " yw'r gweddiau a'r hymnau ar gyfer yr amserau ; ac yn y rhain y fflangellir llywodraethwyr traws ac y pleidir egwyddorion y Chwyldro. Mewn " Gweddi i'w harfer gan y bobl a fyddo'n byw dan lywodraeth greulon, drahaus " darlunnir rhaib y rhyfel, creulonder y llysoedd barn a chyni'r bobloedd :—" Adfyd a thrueni sydd yn gorchuddio wyneb y ddaear . . . Treiswyr sydd, yn sychedu am waed, yn anrheithio'r byd, ac yn gwasgaru anghyfanedd-dra dros y gwledydd . . . Llef gwaed sydd i fyny atat ; cynddaredd uffern sydd ar led yn y byd ; gwallgof cythreuliaid sydd yn aflonyddu ein llysoedd ; y tlawd sydd yn llefain yn yr heolydd am fara, a rhai cyfiawn y ddaear mewn caethiwed." Tadogir holl ddrygau cymdeithas ar y llywodraethwyr mewn gwlad ac eglwys, ac erfynir ar i'r bobl ddwyn eu hawdurdod oddiarnynt, a sefydlu eu llywodraeth ar freiniau anianol dyn :— " bydded iddynt gyrraedd gwybodaeth, fel y byddo iddynt edrych gyd â dychryn ac atgasrwydd ar ddifrod ac anrhaith traws lywodraethwyr, a'u gyrru hwynt bendramwnwgl oddi ar orseddfeinciau eu hawdurdod ; bydded i ddynolryw arfer y pwerau hynny ac sydd yn perthyn iddynt, i'r diben i ddwyn yn ôl y rhydd-did hwnnw, ac sydd yn rhodd natur a rhodd Duw, a meddiant enwedigol dyn . . . A gwna i bawb fod yn feddiannol ar yr hawl naturiol honno o'th addoli di, a thywallt dylanwadau duwiol eu heneidiau allan yn y ffordd y mae eu cydwybodau . . . heb neb i'w haflonyddu neu wneuthur iddynt arswydo ". Mewn gweddi arall, ymosodir ar drais offeiriaid a " brenhinoedd Cristianogol " sy'n " pesgi ar ddynol waed ", a deisyfir am ryddid i Gaethion Affrica ac i ferthyron rhyddid (gan gyfeirio at y Diwygwyr a oedd yng ngharchar yma neu'n alltudion ym Mae Botani, yn Awstralia):— " Gostwng dy glust at lef cystuddiol yr African tlawd, a gwobrwya ef â blynyddoedd o ddiddanwch yn lle y blynyddoedd y gwelodd ddrygfyd. Cadarnhâ a chysura ferthyron gogoneddus gwirionedd, dynoliaeth a rhydd-did pa un bynnag ai mewn rhwymau ai mewn alltudiaeth. Lluosoga rifedi eu canlynwyr fel y byddo i genedlaethau i ddyfod eu galw yn wynfydedig ! Diffodd fflam ynfyd coel-grefydd a genhedlwyd yn ffos ddrewedig dichellion offeiriadol, trais ac erledigaeth, trwy lewyrch mwy disglair a hyfryd haul cyfiawnder, sef crefydd bur a dihalog Iesu Grist ".

O gymharu'r " Drysorfa Gymmysgedig " â gweithiau rhai o bleidwyr cynharaf y Chwyldro, megis eiddo Richard Price, fe welir cryn wahaniaeth. Bellach, y mae Treialon mawr 1794 a'r erlid

cynhyddol gan ysbiwyr y Llywodraeth yn bwrw eu cysgod ; aeth seren fore'r Chwyldro o dan gwmwl, ac yn lle'r llawenydd, y brwdfrydedd a'r gobeithion cynnar, ceir islais tristwch ac anobaith. A gwaethygu yr oedd pethau. Yn ystod y flwyddyn 1795, tynhaodd y Llywodraeth ei gafael ar y Diwygwyr Gwleidyddol trwy basio deddfau gorthrechol newydd, a than bwys yr erlid hwn gorfu ar Domos Glyn Cothi roi'r gorau i'r Drysorfa.

Anodd dywedyd a gyfansoddodd ef rywbeth yn ystod y flwyddyn 1796, ond bernir mai efo a gyfieithodd y " Marsellaise " i'r " Geirgrawn Treffynnon " (Mai, 1796). " Cân Rhyddid " y gelwir y cyfieithiad, a than y teitl fe geir y nodyn a ganlyn :— " Y mae lluoedd anorchfygol y Wladwriaeth Ffrangaeg yn ddyledus iddi, mewn mesur mawr am eu buddugoliaethau ardderchocaf. Yn ddiweddar fe'i dadseiniwyd gan uchel fynyddoedd yr Eidal, a hi a gyrhaeddodd Frudain megis ar adenydd y gwynt." Yr enw sydd dan y gân yw " Gwilym, Tŷ y Crochenydd ", a cheir yr un ffugenw yn y " Geirgrawn " wrth " Llythyr ar Ddinystr y Bastille " ac erthygl—" Troedigaeth Parbootee ". Awgrymai'r ffugenw imi unwaith mai'r awdur oedd " Iorwerth Gwilym " (Iolo Morgannwg) neu " Gwilym o Ddyfed " (Dr. William Richards, Lynn) ; eithr y mae arddull y cyfieithiad, â'r geiriau llanw, y corfannu anwastad ac ymadroddion fel " cŵn gwaedlyd ", " y cleddyf glâs ", etc. yn fy nhueddu i'w dadogi ar Domos Glyn Cothi.

Wele sampl o'r cyfieithiad :—

Chwi feibion Rhyddid, daeth yr amser,
Ac wele myrdd yn galw i ma's !
O clywch riddfannau plant gorthrymder,
Yn gwawdd i wisgo'r cleddyf glas !
A gaiff hyll dreiswyr llawn drwg-fwriad
A'u byddin log (hyll arfog lu !)
Ladd a dinystrio ar bob tu,
Er gwaedu o Ryddid, Hedd a Chariad ?
I'r maes ! I'r maes, rai dewr !
Ein llawn ymroad fydd
Ymlaen ! Ymlaen ! Awn oll yn un,
Am farw, neu fyw'n rhydd.

Yn y Weddi y dyfynnwyd ohoni uchod, dywedir am y gormeswyr eu bod yn cymryd arnynt mai " duwiau ydynt," a'u bod " yn honni hawl i'r awdurdod hwnnw ac sydd yn perthynu yn unig i'r Hollalluog ". Tebyg mai o'r pennill hwn yn y " Marsellaise " y cafwyd y syniad :—

Gormodedd balchder a chybydd-dod
O gylch yr holl orthrymwyr sydd ;
Ac o chwant i arian ormod,
Mesurant, gwerthant oriau'r dydd !

Fel duwiau gwnant i'w coethion grymu,
I'w parchu a'u haddoli hwy ;
Ond dyn yw dyn, a phwy sydd fwy ?
A gânt hwy'n hwyach ein gorthrymu ?

Yn ystod blynyddoedd olaf y 18 ganrif fe lesteiriwyd cynnydd y mudiad diwygio gan amryw o ddigwyddiadau anffodus. Yn 1797, glaniodd y Ffrangwyr yn Abergwaun, a llanwyd y wlad ag ofn a dychryn wrth feddwl bod y gelyn yn y tir yn lladd ac yn anrheithio'r ffordd y cerddai. A chyn i bethau dawelu'n iawn cynhyrfwyd y deyrnas eto gan ofn gwrthryfel o'r tu mewn ac ymosod gan ei gelynion o'r tu allan. Streiciodd y morwyr yn Spithead a thaenodd y dwymyn ym mis Mai i'r Nore ac wedi hynny i lynges Duncan yn Yarmouth. At hynny, yr oedd Iwerddon ar ddibyn gwrthryfel a'r Ffrangwyr yn paratoi byddin fawr i oresgyn yr Ynys.

Y mae'n anodd i ni heddiw ddychmygu'r braw a ddaeth dros y wlad yn ystod y blynyddoedd hyn. Lledodd drwy bob dosbarth, yn fonheddig a gwreng. "So great was the fear", medd un hanesydd, "that even respectable and honest men turned spies and informers on their friends from a sense of public duty". Deddfodd y Llywodraeth yn erbyn y Cymdeithasau Diwygio, yr undebau llafur a darlithiau gwleidyddol. A pharthed y wasg, nid oeddid i gyhoeddi llenyddiaeth o natur derfysgus ym mhapurau'r wlad na'u hanfon i wledydd tramor. Yr oedd y wlad wedi colli ei synnwyr cymhesuredd—"men were tired and sentenced never for deeds, but always for words". Pregethu pregeth wleidyddol, dywedyd gair yn fach am y brenin, hoelio ar ddrws carchar "Tŷ ar osod",—yr oedd rhywbeth o'r fath yn ddigon i roi carchar i'r troseddwr, ac efallai'r rhigod yn y fargen.

Yn y golau hyn fe ddeellir yr anffawd a ddigwyddodd i Domos Glyn Cothi. Ar y pumed o Fawrth, 1801, yr oedd gweddw dlawd yn cynnal "Cwrw Bach" yn y pentref ac aeth Thomas Evans yno i ddangos ei gydymdeimlad. Yr oeddynt yn gwmpeini llawen uwchben y "medd melys maglwr", ac yn yr elwch gofyn am gân. Ar gais, fe ganodd Thomas Evans gân wleidyddol, a bu cymydog iddo, (diacon yn ei gapel, nad yw'n werth ei enwi), mor garedig â chlapian arno wrth yr awdurdodau. Dygwyd ef o flaen y "Court of Great Sessions", ddechrau Awst 1801, a'i ddedfrydu gan y Barnwr Lloyd i ddwy flynedd yng Ngharchar Caerfyrddin ; at hynny bu ddwy waith yn y rhigod. Y gerdd y cyhuddid ef o'i chanu oedd cân Saesneg gan Iolo Morgannwg, ond gwadai Thomas Evans nad hon a ganasai, ac nid yw'n debyg y byddai llawer o arddeliad ar gân Saesneg o gwbl mewn ardal mor Gymreig â Brechfa. Haws credu mai'r Cyfieithiad Cymraeg o'r "Marseillaise" a ganodd neu'r "Gân Rhyddid" o'i waith ei hun. Ymddengys,

hefyd, i'r Barnwr gredu mai mewn addoldy y buasai'r cyfarfod; "Meeting" oedd y gair a ddefnyddiwyd, a "meeting place" (tŷ cwrdd) oedd yr hen enw am gapel.

Erys llawer o waith Tomos Glyn Cothi mewn llawysgrifau, ac efallai y ceir cyfle rywbryd i ymdrin â pheth o'r defnydd hwnnw. Y mae'r tipyn erthygl wedi mynd yn faith tan fy nwylo; (pe bai mwy o amser, byddai hithau'n llai), ond cyn cau rhaid cyfeirio at y Casgliad o emynau a gyhoeddodd yn 1811. Yn y rhain, fel yn y gweithiau cynnar, deil ati i ddinoethi gormes y llywodraethwyr ac i bleidio heddwch a "chariad at ddynol ryw". Ac yn hyn o beth y mae Thomas Evans yn wahanol i lawer o bleidwyr y Chwyldro Ffrengig. Aethant hwy, gan mwyaf, drwy amryw o "stages"—o'r gobeithion a'r gweledigaethau llachar i'r didwyllo ac yna'r anobaith a'r gwadu. Ond safodd mintai fechan o'r diwygiwr yn bur trwy'r cwbl, ac o'r rhain ni bu neb dewrach na ffyddlonach na Thomas Evans, Glyn Cothi. Er gwaethaf gwawd a chreulondeb, safodd "yn ei garn", yn annibynnol. Mynnodd lefaru'r gwirionedd a gwneud ei ran i buro gwythiennau plant dynion o bob gwenwyn sy'n eu gwneud yn gorachod.

Abergweun. J. J. Evans.

Y Parch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi).

"YR UNDODWR, YR EMYNYDD,
Y GOLYGYDD a'r CYFIEITHYDD."

"YMHOB gwlad y megir glew," ac nid yw ardal Brechfa yn eithriad, ond prin y disgwylid o wybod ei hanes a'i thraddodiad iddi roddi inni Domos Glyn Cothi a Gwilym Marles, a'r ddau wedi rhoi stamp ar Undodiaeth. Llithrodd Gwilym i Undodiaeth a'i lygaid wedi'u golau, ond rhyw dalgwympo iddo wnaeth Tomos Glyn Cothi heb fod neb yn medru esbonio sut; serch hynny gwnaeth ddiwrnod da o waith wrth dynnu'r gŵys gyntaf drwy'r gwndwn glâs.

Galwai rhywun Gromwell "Yr Annibynnwr Mawr", a theg i ni yw cofio Glyn Cothi fel Pregethwr Undodaidd *cyntaf* o Gymro, fel y gŵr a gododd y Capel Undodaidd *cyntaf* yng Nghymru, fel y pregethwr a bregethodd ac a gyhoeddodd y bregeth Undodaidd Gymraeg *gyntaf*, gan ddwyn yr enw Undodaidd i lenyddiaeth Cymru y *tro cyntaf*.

Dyma arloeswr mewn gwirionedd a theilynga wneuthur ohonom hyn iddo. Prin yw dynion mawr ein henwad, a phrin gyda llaw yw dynion mawr unrhyw enwad, oherwydd y maent yn "tynnu atynt" wedi eu marw.

Hwyrach y dylasem ni'r dynion bach ymfalchio, a dweyd, chwedl, rhywun, fod gan Dduw fwy o olwg arnom am iddo wneud cynifer ohonom. Pe gofynid i mi enwi ar antur rhyw hanner dwsin o wŷr mawr, credaf y doi Jenkin Jones, David Lloyd, Thomas Perrot, Tomos Glyn Cothi, Castellhywel, John James a David Jenkin Rees, Iolo Morganwg a Gwilym Marles i'm meddwl. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Cyn adnabod Glyn Cothi, rhaid ei ddangos â chefndir meddwl ei oes o'r tu ôl iddo.

Dywed Shankland yn ei bennod yng nghofiant Jones o Ramoth,—"Nid oedd diwinyddiaeth ac enwadaeth yr oes yn wreiddiol iawn feallai . . . Nid ffrwythau meddwl yr arweinwyr Cymreig oedd yr athrawiaethau a barodd ddadleuon ac ymraniadau enwadol y ganrif. Eu dwyn i mewn a'u cyfaddasu at amgylchiadau ac anghenion yr oes a wnaed. Mae'r gwreiddioldeb yn y cyfaddasiadau mewn achos fel hwn. Wrth gwrs y mae cael meddylwyr a dyfeiswyr gwreiddiol fel Calfin ac Armin er enghraifft yn anrhydedd eithriadol i genedl . . . Peth llawn mor bwysig i genedl yw cael arweinwyr byw, effro, ac atebol i ddylanwadau goreu eu hoes, a pharod i gyfaddasu a chymhwyso eu mudiadau goreu at amgylchiadau cenedl. Yn hyn bu Cymru yn hynod ffortunus yn y ddeunawfed ganrif. Cyfaddaswyd llawer o feddyliau a mudiadau goreu Lloegr, Ysgotland a Ffrainc hefyd, a rhoddid ffurf Gymreig iddynt".

Canrif fyw a chyffrous ydoedd, ac er na nodweddid hi yng Nghymru gan wreiddioldeb mawr, eto fe deimlem ni bob ysgogiad o Loegr. Canrif o ddadleuon crefyddol ydoedd, a chanrif o ymrannu a ffurfio enwadau newydd: canrif yn dilyn rheswm ar draul gwthio'r teimlad dan yr wyneb dros dro, ond fe'i ceir yn brigo eilwaith. Yn y ganrif hon yr eangwyd egwyddor fawr goddefiad, a diddorol dros ben yw yr ymdrech i dorri cyffion ym myd y meddwl. Ni wnaf ond galw i gof fudiad neu ddau. Tua dechreu'r ganrif ceid anesmwytho ac ymrafael yn Henllan, ac ar fyr ceir Jenkin Jones yn pregethu Arminiaeth yn Llwynrhydowen. Nid cynt y cynhyrfwyd y gwersyll gan bregethu Jenkin Jones a David Lloyd nag y ceir yr adwaith, a'r teimlad yn mynnu eilwaith ei le drwy'r Diwygiad Methodistaidd. Tua chanol y ganrif cafwyd ysgolion Gruffydd Jones o Landdowror, ac ni fedrai y rhain beidio gadael eu dylanwad ar fywyd y genedl.

Bu yna gryn gyffro ymhlith y Bedyddwyr o'r ymrafael yn Hengoed parthed Charles Winter, heibio cymanfa Salem a'r ymrwygo a'i dilynodd. Megis ton y daeth Wesley yma gan bregethu

Arminiaeth, a dechreuwyd dadlau drwy'r wasg. Nid oedd cwbl heddwch ymhlith y Methodistiaid hwythau. Teimlid dylanwad y Morafiaid ar Howell Harris a drwgdybid Peter Williams o Sabeliaeth a'i ddiarddel.

Ys dywed Saunders Lewis,—" Fe drosglwyddwyd gwerth bywyd o gylch rheswm, y peth cyffredinol, i gylch cyngreddf—o weithredoedd i deimlad, o foesoldeb i brofiad."

Dyna duedd pethau yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif, a daeth Glyn Cothi a rhyw nifer bach o Ariaid a Bedyddwyr i bleidio rheswm. Medrid defnyddio geiriau Matthias Maurice yn y " Wir Eglwys " i bortreadu'r sefyllfa,—

" Y gwirioneddau mawrion yn dal allan etholedigaeth dragwyddol, prynedigaeth neullduol, gwaith effeithiol yr ysbryd ar y rhai etholwyd ac a brynwyd er eu troedigaeth a'u parhad hyd y diwedd mewn stat o ras, taflasant hwy o'r neilldu ".

Yr oedd meddwl y genedl mewn caethiwed, a hithau tan ddylanwad teimlad yn glynu'n dynn wrth draddodiadau'r tadau. Ni ddwedaf nad oedd angen rhoi ei le i'r teimlad, ond fe wylltwyd y genedl yn ei hofn o'r Chwyldro Ffrengig nes caethiwo'r genedl am lawer cenhedlaeth. Er cymaint a sonir am Lewis Edwards y Bala, ni wnaeth ond ceisio clytio adwyau'r mur, gan adael i Dr. Rowland Williams gyfeirio llygaid gwerin at y wawr a'r dydd.

Fe welir felly ddylanwad yr Ysgolion Rhad a alluogodd Tomos Glyn Cothi ac eraill i ddysgu darllain. Doi llyfrau yma o Loegr ac yn 1768 cyhoeddodd Dr. Priestley ei " Essay on the First Principles of Government ", a cheir ef yn cynnig yn rhydd i ddiddymu pob cyfraith ormesol ym myd crefydd. Ni chofiwn ni am anhawsterau y teidiau. Yn 1779 y caniataodd y Senedd ddatganiad diddrwg o gred yn yr Ysgrythur yn hytrach nag arwyddo erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr. Cyn hyn rhaid oedd i bob offeiriad a phregethwr, pob tiwtor ac ysgolfeistr arwyddo erthyglau athrawiaethol Eglwys Loegr. Yn yr ymgais i gael hyn y crynhowyd yr ystadegau a elwir Thompson's List (1773), ac fe arwyddwyd y ddeiseb gan ddau o bob tri o weinidogion Anghydffurfiol Lloegr a Chymru ; yn eu plith ceir enw Joseph Rees o Brechfa, a gobeithio mai y gŵr hwn a daniodd enaid Tomos Glyn Cothi. Yn 1783—1790 bu dadl Priestley a Horseley a sicr y gwyddai llawer Cymro am y ffrae honno.

Yn 1789 oedd y Chwyldro Ffrengig, a gwerin yn deall, wedi'r Rhyfel a'r Amerig ac yng ngwres y Chwyldro nad oedd raid yn dragywydd ddioddef gorthrwm na phlygu i awdurdod. Gwnaeth y refoliwsion ffydd y rhai a lynai wrth draddodiad yn fwy poeth ac afresymol, ond taniodd hefyd y bobl flaengar i siarad yn fwy plaen. Cododd tô o ddiwygwyr i ysgogi bywyd addysg, crefydd a gwleidyddiaeth y genedl, ac ys dwedai un ysgrifennydd,—" Daeth ein llenyddiaeth yn gyfangwbl dan ddylanwadau Seisnig ".

Dyma gyfnod Dr. William Richards o Lynn, Morgan John Rhys, Williams Aberteifi a llu eraill, am y rhai y dwedodd Shankland,—"Gwir ogoniant y fintai fechan hon oedd—nid eu hathrawiaethau a'u hopiniynau crefyddol, ond eu hymdrech a'u protest nobl dros ryddid meddwl a rhyddid unigol i wahaniaethu mewn barn a athrawiaethau a dirgeledigaethau crefydd. Nid dros benrhyddid y dadleuent ond dros hawl y meddwl i weithredu'n rhydd a diamodol ar Air yr Arglwydd, unig reol ffydd ac ymarferiad".

Dyma'r cefndir, a theg dweyd nad oedd Brechfa a'r ardal ond megis ardaloedd gwledig eraill. Hyd y gwn i nid oedd yma ysbryd rhyddfrydig i esbonio Tomos Glyn Cothi.

O ddarllain ei weithiau mewn print ac ysgrifen canfyddir ar unwaith ddylanwad Priestley, a naturiol yw troi at Briestley er ceisio deall Glyn Cothi.

Y mae Priestley yn ceisio ateb y cwestiwn "Ba ran a fedr ewyllys a meddwl dyn gymryd yn ei iechydwriaeth foesol?"

Erbyn heddiw gwelwn fod yna o leiaf dri ateb ond yn nyddiau Priestley ni chynhygid ond un, Ffataliaeth neu Dynged. Credid nad oedd dyn ond at reolaeth pwerau tuallan iddo ef ei hunan. Ni fedrai ef ohono ei hun wneud dim. Ceid y gred hon yn adfywhau yn amser y Rhyfel Mawr pan soniai milwr am "*my number is up*". Yr oedd ei dynged wedi'i phenderfynu eisoes, a rhwydd gweld mai cred felly, ond odid, sydd wrth wraidd etholedigaeth.

Yr oedd gan Briestley ar ôl athronwyr ei oes, megis Locke a Hartley ateb arall. Credai fod rhyw law gan ddyn ond yr hyn a ewyllysia wneud yw *canlyniad* a chanlyniad *angenrheidiol* ei gymeriad a'i amgylchiadau.

Gwyddom i Briestley gyhoeddi traethawd Collins ar "Ryddid ac Angenrhaid neu Reidrwydd", a chredir mai'r traethawd hwn a droes feddwl Tomos Glyn Cothi at Undodiaeth. Nid yw ond teg cymryd paragraff o Draethawd Byr ar yr Athrawiaethau o Ryddid ac Angenrheidrwydd Philosophyddawl. Yn Saesneg gan William Belsham, wedi ei droi i'r Gymraeg gan T.G.C. (sef Tomos Glyn Cothi) er gweld ystyr y term,—

"Yn gyntaf gan hynny, am yr ysgrifenwyr o blaid Angenrheidrwydd. Y'mysg y rhai y mae Hobbes, Hume, Collins, Leibnitz, Hutcheson, Edwards, Hartley, Priestley, Crombie ac ond odid Locke i gael eu cyfrif; y rhai a ddaliant yn egniol fod holl ddigwyddiadau dynol yn hollawl, ac anghyfnewidiol, wedi cael eu penderfynu ac na's gallasai dim yn bosibl, o leiaf heb gyfnewidiad yn nghyfreithiau sylfaenol natur, gymeryd lle yn wahanol oddiwrth y modd y mae, y bu ac y bydd . . . Pa beth bynnag sydd yn dechreu bod sydd raid iddo—wrth achos cyfattebol o'i fodiad, canys os gall y gronyn lleiaf o lwch neu gyffroad lleiaf y meddwl ddyfod i fod neu gymeryd lle heb achos, fe fyddai yn anmhosibl profi Bod yr achos mawr dechreuol o bob peth",

Nid oes angen ond crybwyll y trydydd ateb a olyga fod dyn yn abl ohono ei hun i wneud yr hyn sydd iawn.

Y mae y mwyafrif ohonom yn gwybod ysgrifenfedd Dafis Castellhywel i Briestley,—

Yma gorwedd wedi marw
Yn dra dethau mewn arch dderw,
Esgyrn, 'menydd, gwaed, gwythenau,
Corff ac *enaid* Doctor Priestley.

Cyn deall yr ergyd rhaid gwybod rhywbeth am syniadau Dr. Priestley. Daliai Priestley, onid wyf yn methu, fod mater yn abl i feddwl. Rhoe bwerau canfod a meddwl yn y corff gan wadu bodolaeth enaid ar wahan—Dyna yw'r ergyd yn yr ysgrifenfedd, fod y cyfan o Dr. Priestley yn yr arch, er nad teg ei alw yn faterolwr ac yntau wedi derbyn syniad Boscovich mai canolfannau diranedig o allu yw mater. Ys dywedai Dr. Channing, "Newidiodd fater o defnydd neu sylwedd i allu". Nid oedd ei syniad am ddechreu gweithrediadol yr enaid yn gwbl newydd ond fe ddelid y canlyniad o hyn—fod yr enaid ynghwsg rhwng angau a'r atgyfodiad—gan lawer o'i gydoeswyr.

Nid wyf yn sicr nad oddiwrth Locke y cafodd y syniad mai profiad yw ffynhonnell pob syniad, a bob yn dipyn fe wyrdrowyd hyn i olygu fod y meddwl a phopeth y sydd yno—meddwl, teimlad, cydwybod, serch wedi eu gwneuthur o iasau (*sensations*) ac ymdeimladau synhwyrol. Nid oedd y fath beth ag enaid.

Parthed syniadau diwinyddol Priestley, "gwadai yr enedigaeth wyrthiol; credai eni'r Iesu yn Nazareth, gyda'r un amherffeithderau meddyliol, materol a moesol a phob dyn, ac mai yn raddol y datblygwyd ei gymeriad. Credai yn y Gwyrthiau a derbyniai hwy fel sylfeini Cristionogaeth. Disgwyliai y doi proffwydoliaethau yr Hen Destament i ben yn llythrennol ac ailddyfodiad yr Iesu. Credai nad oedd yr enaid ond *function* o'r corff ac yn marw gydag ef. Credai hefyd y bydd i Dduw y dydd diweddaf adfer pob enaid i fywyd trwy ei adgyfodiad gwyrthiol ei hun."

Dyna ond odid ddigon i'n galluogi ni i ddeall Tomos Glyn Cothi. Yn ei bregeth,

"Datganiad Ffydd a gafodd ei thraethu yn gyhoeddus ger bron Gweinidogion ac eraill gerllaw Gwernogau yn Sir Gaerfyrddin, Medi 11 1794 gan T. Evans—Caerfyrddin. Argraphwyd gan J. Ross 1795." fe rydd i ni ei syniadau ar grefydd,—

> "Yn y lle cyntaf, yn proffesu fy mod yn Gristion, yr wyf yn credu . . . fod UN ac nad oes ond Un bywiol a gwir Dduw . . . Y Tad Cyffredinol . . . Er iddo gynysgaeddu dyn a gradd helaeth o reswm a deall . . . efe a welodd fod yn dda . . . roddi datguddiad mwy cyflawn a pherffaith o'i ewyllys i ddynolryw, . . . Mewn perthynas i Iesu Grist yr wyf yn credu mai efe yw yr hwn a

ordeiniwyd neu a neillduwyd gan Dduw ei Dad i fod yn Ddatguddiwr o'i ewyllys a chennad ei ras at ddynolryw . . . yr wyf yn credu ar dystiolaeth yr Ysgrythyrau mai *dyn* oedd Iesu Grist megis ninnau, yn feddiannol ar yr un nattur a'r lleill o ddynolryw . . . Oddiwrth eiriau Crist ei hun a'r adgyfodiad y mae gennyf sylfaen i obeithio y bydd iddo ymddangos etto . . . i gyfodi'r holl ddynolryw o'u beddau . . . ac i farnu pob un yn ol ei weithredoedd—Nid oes sylfaen i obeithio am faddeuant a chymmeraddwyaeth Duw trwy haeddiant un arall—nid oes eisiau unrhyw daledigaeth i lonyddu ei lidiawgrwydd ef. . . . Nid oes hawl gan neb awdurdodau gwladol ar wyneb y ddaear i daro i mewn neu ymyrru mewn matterion crefyddol".

Y mae'r Datganiad Ffydd yna yn dangos yn eglur ble y safai Tomos Glyn Cothi ar derfyn y ddeunawfed ganrif. Ni buaswn wedi oedi cyhyd gyda syniadau Priestley onibai fy mod am ddangos mor ddieithr a newydd a hereticaidd oedd syniadau Glyn Cothi yn ardal barchus Brechfa. Rhagor na hynyna yr oedd ochr ysbrydol i'r gred—syniad neu ymdeimlad ardderchog o Dduw. I'r Cristion gwir, meddid, yr oedd pob dydd yn ddydd yr Arglwydd, pob man yn deml, a phob act yn act o addoliad, a gwelid Duw ymhob peth a phopeth yn Nuw. Ni fedrid cadw y syniad materolaidd a'r syniad ardderchog hwn, a cheir gweld yr Undodwr yn y man tan arweiniad Channing ac eraill yn gadael y materol ac yn cydio'n dynnach yn y wedd ysbrydol ar grefydd. Nid yw hynyna ond gyda llaw er nodi'r llwybr wrth fynd heibio.

Y mae'n werth symio i fyny. O dderbyn y syniad o Reidrwydd ynghyd â'r gred mewn ewyllys rydd fe gilia'r angen am brynedigaeth.

Y mae'n ddiddorol gwybod hefyd mai Priestley a roes fod i'r syniad am gynnydd yr hil ddynol at hapusrwydd a fedrid gael trwy ymdrech ddigynhorthwy dyn ei hunan. Fe welir fod y syniad hwn yn torri ar draws y syniad poblogaidd ac uniongred o gwymp a dedwyddwch i'r saint wedi eu gogoneddu yn y nef. Y syniadau hyn, ond odid, a enillodd galon Glyn Cothi.

Ni wyddis sut y daeth ysgrifeniadau Priestley i'w law. Dywed ei fywgraffydd yng Ngardd Aberdar,—

"Dangosai hefyd awydd neillduol am lyfrau a phrynai ei dad iddo lawer o fân draethodau a phethau eraill, ac yn neillduol ryw bethau yn tueddu at ddadleuon crefyddol, gan fod ei dad yn bleidiol i Undodiaeth, a thra thebyg mai yn mhlith y rhai hyn y daeth o hyd i draethodau bychain y Dr. Priestley ar Reidrwydd ac mai hyn oedd y moddion a'i tueddodd gyntaf at Undodiaeth."

Y mae'n anodd gwybod awdurdod yr awdur, ond dyna sylfaen pob un ar ei ôl. Y cofnod cyntaf y gwn i amdano yw eiddo Lewin's Mead M.S. dan Dachwedd 1798, a hefyd 1799—1800 lle

dwedir fod yr eglwys honno ym Mryste wedi gwneud grant i Thos. Evans Brechfa. Gwyddom fod Glyn Cothi yng ngharchar Caerfyrddin 1801—1803, a cheir llythyr dyddiedig Ionor 19, 1803 (wedi ei gyfeirio at Revd. Mr. Thos. Evans, Dissenting Minister at the County Gaol, Carmarthen). Onid wyf yn cam gofio credaf i Lleufer Thomas, Ysw., M.A. ddweyd wrthyf yn y Llyfrgell Genedlaethol ei fod ef wedi cael gafael yn y warrant a fwriodd Glyn Cothi i'r carchar.

Gwyddis iddo gael dwy flynedd o garchar am ganu cân mewn "cwrw bach" a ystyrid yn anheyrngarol, a hefyd ei osod ddwy waith yn y pilwri. Y mae ar glawr fill am bâr o ddillad newydd iddo er iddo edrych yn barchus yn y pilwri, ac yn Spurrell td. 134 ceir y cofnod hwn,—1802 Aug. 4. "An offender stood in the pillory". Tybed ai Glyn Cothi yn ei ddillad newydd oedd yr offender hwn? Y mae rhai cofnodion o'r Monthly Repository yn ddiddorol am eu croniclo yno a Thomos Glyn Cothi yn fyw ac yn eu darllain:

> "Brechva . . . The Meetings are held in a private house: the people are Unitarian Baptists. Mr. B. Davies, a poor man, is their preacher. (Wright's Tour Mids. 1816. M.R.P. 683).
>
> Thomas Evans principally by the assistance of Mr. Lindsey erected the first chapel that in South Wales was devoted expressly to the worship of 'One God, the Father', although that attempt to collect a congregation of Unitarians at Brechva eventually proved abortive, the spirit of enquiry was then more decisively roused than at any former period. As a consequence of the movement, the desciples who had been silently formed in the bosom of the old connection saw fit to form themselves into a society of professed Unitarians.
>
> M.R. 1817 . . . P.742.
>
> For part of his time he (T.E.) is under the necessity of employing in the loom . . . Cd he be enabled to lay aside his business as a weaver entirely I think his usefulness wd. be extended. I know of no man in Wales who seems so completely qualified to act as missionary as he is . . . Wright's Tour 1816."

Dywedir ei fod yn pregethu'n ieuanc a bod rhan o dŷ ei dad wedi'i drwyddedu iddo. Yn Yr Ymofynnydd am Fai 1852 dwedir ei ordeinio ym Mrechfa, Medi 11, 1794. Os yw hyn yn wir, gwelir nad yw ei bregeth Datganiad Ffydd a bregethodd o flaen Gweinidogion, etc. ond pregeth dydd ei urddo.

Credir trwyddedu tŷ ei dad iddo tua 1786 a chodi Tŷ Cwrdd Cwm Cothi ryw ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Y mae olion Tŷ Cwrdd Cwm Cothi i'w gweled hyd y dydd hwn, ac y mae yr Athro Owen o Caerfyrddin wedi addo dangos y fan imi y cyfleu cyntaf a gaf. Y mae gennyf ddau neu dri o gwestiynnau na fedraf mo'u hateb. Pam y pregethai Mr. B. Davies yn "a private house" a

Thŷ Cwrdd Cwm Cothi i'w gael? Ceir cofnod yn George Harris' list of Unitarian Churches 1819 . . . Brechfa (Carm.) Pryd y rhowd i fyny pregethu yno, oherwydd ceir cofnod yn Lewin's Mead M.S. am Ben Davies yn cael grant bron yn rheolaidd o Dachwedd 1815 hyd Rhagfyr 1846 er fod Cwmwrdu wedi'i godi flynyddoedd cyn hyn yn 1832, a cheir cofnod " 1834. Aug., Grant to the Presbyterian Congr. Llwynolau, Carm."

Tybed fod Mr. Benj. Davies y " poor man " wedi cadw y cysylltiad yn ddidor rhwng Tŷ Cwrdd Cwm Cothi a Chwmwrdu?

Y mae yna M.S. 3637 A yn cynnwys Notes of Sermons and other memoranda by Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi). Nid yw'r nodiadau yn bwysig am fod Glyn Cothi yn ddigon gonest i addef mai brasluniau o bregethau Joseph Fawcett a gyhoeddwyd yn 1795 ydynt. Y mae yntau wedi'u pregethu ac yn dweyd ymhle, megis Ffynnon-rydd, Coedycymar, Gwaralltyrynn, Llystyn a Chwmcothi. Tybiaf fod Ffynnonrydd, Llystyn a Chwmcothi yn yr ardal yna er na wn. Y mae Llystyn yn ddiddorol am y ceir enw David Evans Llestyn fel aelod o'r Gymdeithas Undodaidd yn gynnar, a cheir yng Ngardd Aberdâr enwau John Lewis o'r Penfawr, David Evans Llysdy (tybed ai'r un yw a Llystyn a Llestyn?), Thomas Jeremy o'r Cerdynau a'i wraig fel gwŷr blaenllaw gyda'r achos ym Mhrechfa.

Yn 1811 cafodd alwad i Aberdâr, ac yma bu hyd ei farw yn 1833 yn fawr ei barch, ond mynnir mai pregethu Thomas Evans a wahanodd yr enwadau yn yr Hen Dŷ Cwrdd am mai ef oedd yr Undodwr cyntaf i weinidogaethu yno. Ni ddarllenir heddiw hwyrach un o'i lyfrau ond y mae "*Cyfansoddiad o Hymnau wedi cael eu hamcanu ar Addoliad Cyhoeddus ac yn enwedig at Wasanaeth Undodiaid Cristionogol*, gan Thomas Evans yn dal yn eu blâs a chenir gennym ei emynnau megis,—"Un yw ein Hathraw ni, sef Crist," " Dyrchafwn fawl tra gweddus yw," " Rhown foliant coeth, i'r unig ddoeth wir Dduw," " Clodforwch Dduw ar beraidd gân."

Nid yw hynyna ond pigion o'r rhai garaf i. Yn y Llyfrgell Genedlaethol fe geir Pigion neu'r Gell Gymysg, a cheir yma gyfansoddiadau barddonol o'i waith megis cywyddau ar Heddwch a Gwybodaeth, englynion a phenillion ar wahanol destunau. Ceir englynion ganddo i'r Gwir Ddianrhydeddus William Pitt,—

Pitt, iauwr, llethwr a llwythi, gwarrau
Gwerin mewn caledi;
Pwll uffern, pwy eill hoffi
Dy oer droion duon di?

Nid oes raid aros yn hir cyn gweld ei wleidyddiaeth yn dod i'r golwg " Mewn englynion i adyn ffroenuchel yr hwn a dorrodd glun dyn a phladur am iddo yn unig weiddi Blews For Ever ",—

Bladurwr, dorrwr, diras, archollion
Erchyllaidd yw Tomas ;
Cynffongi, utgi atgas,
Clwyfai glun y glewddyn glâs.

Ni soniaf am ei benillion i Ffeiradon ond ceir pennill ganddo i'w frawd yn disgrifio'n dlws,—

Mae bywyd amserol fel gwennol y gwydd,
Neu debyg i gysgod yn darfod bob dydd ;
Ni ŵyr y rhai dewraf a gwychaf eu gwedd
Pa bryd cant eu gosod yn barod mewn bedd.

Ni wn i ble y'i haddysgwyd. Dwedir ei anfon i'r coleg am flwyddyn ac yntau yn ŵr priod. Y mae'n syn gennyf iddo ysgrifennu cystal Cymraeg a gwneud cymaint o waith yn ei ddydd ac yntau yn ŵr digoleg. Ni chredaf iddo gael manteision addysg uwchlaw y cyffredin ond ysgrifenna wytnach Cymraeg na llu yn yr oes hon, ac am ei lafur i gyfieithu traethodau a llyfrau, cyfansoddi emynnau a hel geirlyfr Cymraeg ni fedraf i ond tynnu fy het iddo gan ddweyd, " Dywed ei gynhaeaf, Gweithiwr fu ".

Ni welais i erioed restr gyflawn o'i weithiau a cheisiaf i nodi y mwyafrif ohonynt, a diolchaf i D. Lleufer Thomas, Ysw., M.A., Barnwr Cyflog Pontypridd, ac yntau yn hannu o'r un cyff a Glyn Cothi, am anfon i mi gopi o " Gyfieithiadau Dienw Tomos Glyn Cothi ", lle y dengys, yn rhesymol mi gredaf, na ellir amau nad Glyn Cothi yw y cyfieithydd. Wele restr,—

1. Appel at Broffeswyr difrifol a diduedd Cristianogrwydd . . . (J. Priestley) . . . Cyfieithad . . . Ross MDCCXCLL. W. Williams 1812. D. Jenkins 1863.
2. Amddiffyniad o Bennadwriaeth y Tad mewn pregeth a bregethwyd gerllaw Brechfa . . . 1792. Ross, Caerfyrddin 1792.
3. Gorfoledd y Gwirionedd, sef hanes Treial Mr. E. Elwall (cyf.). Ross 1792. W. Williams 1812. J. James 1824.
4. Datganiad Ffydd . . . Pregeth. Ross 1795.
5. The Miscellaneous Repository neu y Drysorfa Gymmysgedig. Rhifyn cyntaf ; Pris Chwe Cheiniog. . . . Chwarter Haf 1795. . . . Ross.
6. Ail rifyn, am Chwarter Hydref 1795.
7. Y rhifyn olaf : Mawrth 1796. (Cylchgrawn yn cynnwys 48 tdd. bob rhifyn).
8. Yr Egwyddorwr neu Ymofyniad i athrawiaeth yr Ysgrythyrau. Cyfieithad o waith Lindsey. . . . Ross 1796. Ail arg. 1814 ? D. Jenkins Aberystwyth 1865.
9. An English and Welch Vocabulary or an Easy Guide to the Antient British Language. W. Williams 1804. R. Jones Dolgelly 1816. W. Williams Brecon 1820.
10. Hanes Pleidiau y Byd Cristnogol gan John Evans, A.M. Cyfieithad . . . W. Williams Merthyr 1808.

11. Y Ffordd at Gyfoeth . . . gan Dr. B. Franklin . . . Cyfieithad : W. Williams 1808.
12. Traethawd Byr . . , gan William Belsham . . . Cyfieithad. Caerfyrddin . . . J. Harris . . . 1809.
13. An English—Welsh Dictionary ; neu Eir-lyfr Saesneg a Chymraeg . . . W. Williams Merthyr Tydfil 1809 . . . Pris 7s. in boards.
14. Cyfansoddiad o Hymnau, etc. . . . Thomas Evans . . . J. Harris 1811. Job James 1822.
15. Rhagdraethawd i'r Testament Newydd—Cyfieithad gan (Thos. Evans dros Dd. Davies)—yn ysgrifen Glyn Cothi ei hun y mae ei enw. Harris 1814.
16. Holiadur Priestley, wedi'i gyfieithu gan Thomas Evans, 1814.
17. Llythyr oddiwrth y Parch. R. Wright . . . Cyfieithad . . . W. Williams 1817.
18. Appel yr Undodiaid . . . Lant Carpenter . . . Cyfieithad. J. James 1821.
19. " Fflangell i'r Grwgnachwyr ; neu Gebyst yn safn Uchelfais " . . . (Fflangell i Rwgnachwyr wedi Eisteddfod) . . . J. James 1824,
20. Wright ar Undod Duw. (Fe'i ceir mewn cyfrol o Amryw yn y Llyfrgell Genedlaethol ond anghofiais i edrych ar y teitl-page na'r dyddiad).

Fe garwn oedi gyda'r rhestr ond ni chaniata gofod, eto byddai'n ddiddorol sylwi nad yw Tafol Gywir i bwyso Sosiniaeth o waith Peter Williams ond ateb i'r Appel at Broffeswyr Difrifol o waith Priestley a gyfieithwyd gan Tomos Glyn Cothi.

Dengys y rhestr hon mor ddiwyd y bu, a sicr ei fod yn gymeriad ar ei ben ei hun cyn iddo fyw i lawr ddwy flynedd o garchar a gwarth dwywaith yn y pilwri a chael galwad i Aberdâr yn y fargen. Rhoes hanner canrif i bregethu Undodiaeth ac i wasanaethu ei Dduw fel y Meistr ei hun heb nemor o dâl oherwydd fel gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, yr oedd yn gweithio wrth y " gwydd ", er y gwyddys fod Undodiaid Lloegr wedi bod yn haelionus tuag ato o'r dechreu oherwydd ceir llythyr Lindsey tuag ato wedi'i ddyddio London, Feb. 22, 1799 (N.S.W. M.S. 3639 C.). :

" I waited for the Duke of Grafton . . . he himself the very first half hour I saw him asked after you and desired I should convey to you his annual present of ten pounds."

Dyma Bioneer ac Apostol Undodiaeth yng Nghymru, ac ni allaf i gloi'r erthygl yn well nag a phennill o'i waith ef ei hun :

" A ddwedo'r gwir yn union
Caiff lawer o felldithion ;
A ddwedo gelwydd, du-brud, noeth—
Bydd hwn yn ddoeth gan ddynion." O.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

YR YMOFYNNYDD.

RHESTR GYFLAWN o'r Ymofynnydd ar werth, yn cynnwys y blynyddoedd canlynol. Derbynnir y cynnyg uwchaf.

1847, 1848, 1849, 1850, 1851, 1852, 1853, 1854, 1859–60–61, 1862–65, 1868–70, 1871–73, 1874–76, 1877, 1878, 1882, 1883–85, 1886, 1888, 1889–91, 1892–94 1895–97, 1898–1900, 1901–1903, 1904, 1905, 1906, 1907, 1908, 1911, 1912, 1913, 1914, 1915, 1916, 1917, 1918, 1920, 1921, 1924, 1925, 1927, 1928, 1929, 1930, 1931; cynnwysa un Gyfrol 1847–48–49, 1850–51, 1852–53–54.

Anfoner at Mrs. THOMAS, AWELON, LLANDYSUL.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.